

PDF Argraffu Cyfeirnod

ELLIS (TEULU), Bron y Foel ac Ystumllyn, Ynyscynhaearn, Sir Gaernarfon. —

Rhestrir y teulu hwn o dan y cyfenw Ellis er mwyn hwylystod. Fel y gwelir, cynhyrchedd rai gwyr o bwys cyn i'r cyfenw gael ei gychwyn gan Owen Ellis (bu farw 1622). Hawliai'r aelodau ddisgyn o Gollwyn ap Tangno. Perthynai Meredydd, cyndad teulu **Vaughan**, Trawsgoed, Sir Aberteifi, i un gangen o'r teulu, a chyfrifai teulu **Evans**, Tanybwlich, Maentwrog, Iorwerth, o'r llinach hon, fel cyndad yn union fel y cyfrifid leuan, brawd **Syr Howel y Fwyall**, yn gyndad hen deulu **Madryn**, Sir Gaernarfon.

Priododd HOWELL AP MEREDYDD, Bron y Foel, Gwenllian, ferch **Gruffydd ab Ednyfed Fychan**. Aer y briodas oedd GRUFFYDD AB HOWEL. Ei aer ef, o'i wraig Angharad, oedd EINION AP GRUFFYDD, siryf sir Gaernarfon, 1354-6, a mab arall oedd **Syr Howel y Fwyall**. Dilynwyd Einion gan IEUAN AB EINION, siryf sir Gaernarfon, 1389, leuan gan HOWEL FYCHAN, Howel gan RHYS AB HOWEL, Rhys gan HOWEL AP RHYS. (Dyma'r gwr y mae **Syr John Wynn** yn rhoddi cymaint o le yn ei *The history of the Gwydir family* i adrodd hanes yr ymrafael ffyrnig rhyngddo a'i frawd-yng-nghyfraith, leuan ap Robert - aelod o deulu **Cesailgyfarch**, ac un o hynafiaid yr hanesydd.) Dilynwyd yr Howel ap Rhys hwn gan RHYS AP HOWEL, yntau gan THOMAS AP RHYS, a werthodd diroedd ei fam yn Hopesland, Sir y Fflint, ac a ddilynwyd gan CADWALADR AP THOMAS, tad ELLIS AP CADWALADR.

Gwraig ELLIS AP CADWALADR oedd Elin, ferch Owen Wynn ac Elin (Salesbury), Cae'r Melwr, ger Llanrwst; eu haer hwy oedd OWEN ELLIS I (bu farw 1622); canwyd marwnad iddo gan **Gruffydd Phylip**. Brawd i Owen Ellis oedd GRIFFITH ELLIS (bu farw 1667), a briododd Margaret (bu hithau farw yn 1667), ferch Ellis Wynn ap Robert, Rhwng-y-ddwryd. Griffith a Margaret oedd enwau rhieni **Thomas Ellis** (bu farw 1673), rheithor Dolgellau, a Dr. John Ellis (bu farw 15 Hydref 1693), canghellor Llanelwy.

Trwy ei wraig, Dorothy, ferch **John Wynn ab Humphrey**, Cesailgyfarch, cafodd Owen Ellis I lawer o blant; yn eu plith yr oedd ELLIS ELLIS (bu farw 1631), Ystumllyn, a Robert Ellis (bu farw 8 Ebrill 1688), ' Groom of the Privy Chamber ' i Siarl II. Priododd Ellis Ellis Mabli, ferch **William Lewis Anwyl**, Park, Llanfrothen, a chael OWEN ELLIS II (profwyd ei ewyllys yn 1691). Pan briododd Owen Ellis II gydag Elizabeth, ferch **John Bodwrda**, canodd **Gruffydd Phylip** gywydd priodas iddynt. Dilynwyd Owen Ellis II gan ei ferch, MARGARET ELLIS (bu farw 1712), a gymerth GRIFFITH WYNN (bu farw 1719), Penyberth, yn wr; bu Griffith Wynn yn siryf sir Gaernarfon yn 1676. Daeth y stad maes o law yn eiddo i drydydd mab Margaret a Griffith Wynn, sef HUMPHREY WYNN (bu farw 1724), ficer Bosbury, Swydd Henffordd. Yn 1837 prynwyd y stad gan **Rowland Jones**, Broom Hall, gerllaw Pwllheli; aeth darlun o **Syr Howel y Fwyall** i Broom Hall hefyd.

Canodd tri o **Phylipiadau Arduwly** gywyddau neu englynion i rai o'r Elisiaid. Soniwyd uchod am un gan **Gruffydd Phylip**; yma gellir ychwanegu iddo ganu cywydd ar eni Owen Ellis II ac englynion i ' Marged Ellis,' sef, y mae'n debyg, Margaret gwraig Griffith Ellis; gellir barnu ei bod yn wraig hynod o garedig. Y mae gan **Gruffydd Phylip** gân yn y mesur rhydd hefyd, ' Hiraeth y bardd am Ystumllyn,' sydd yn werth ei nodi; argraffwyd hi gan J. H. Davies yn *Caniadau yn y Mesurau Rhyddion*. Canodd **Siôn Phylip**, tad **Gruffydd Phylip**, gywydd i ganmol Owen Ellis I, a cheir dau gywydd gan **Richard Phylip**, brawd **Siôn Phylip** - un (1617) i ofyn i Owen Ellis I roddi rapier a pwynadwy ('poniard') i Owen Poole a'r ail pan fu Owen Ellis farw yn 1622.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914)

erthygl ar 'Phylipiadau Arduwly,' yn *Y Cymmrodor*, xlii

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732993

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

Ymirannu

Arddull APA

x

Davies, W. Ll., (1953). ELLIS (TEULU), Bron y Foel ac Ystumllyn, Ynyscynhaearn, Sir Gaernarfon.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ELLI-YN-1354>

Ymirannu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government